**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 19 Gorffennaf 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Awst 2022 |

## PWNC

Eitem 6:PROSIECTAU GRANT CYFALAF ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG, LLYWODRAETH CYMRU

## PENDERFYNIAD

Cytunwyd i symud ymlaen i gyflwyno achosion busnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau'r cyllid o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyflawni dibenion y prosiectau isod:

a) Prosiect 1 – Buddsoddi dros £1.1m i gynyddu capasiti a gwella amgylchedd dysgu Canolfannau Iaith Gwynedd - Yr ail wedd.
b) Prosiect 2 – Buddsoddi dros £1.5m cyfalaf a £0.3m refeniw i gynyddu capasiti 3 ysgol (Llanllechid, Bro Lleu a Chwilog) er mwyn cefnogi cymunedau Cymraeg o arwyddocâd ieithyddol (h.y. cymunedau gyda dros 70% o siaradwyr Cymraeg) i ffynnu.

Cytunwyd i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Chwilog i 95, sef cynnydd o dros 25% o'r capasiti presennol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan adrodd yn ôl i Gabinet yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn 2021 bu i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig yn gwahodd Awdurdodau Lleol i ymgeisio am gyllid o gynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg. Prif nod Llywodraeth Cymru ar gyfer y grant oedd i gefnogi buddsoddiadau fyddai'n hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg gan anelu'n benodol at brosiectau a fyddai'n cyfrannu'n amlwg at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bu i'r Adran Addysg gyflwyno cais i gyllido 2 prosiet, ac yn ôl ym mis Chwefror derbyniwyd cadarnhad gan Lywdoraeth Cymru eu bod wedi cymeradwyo mewn egwyddor i ariannu 100% o'r cyllid cyfalaf a refeniw tuag at y 2 brosiect.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Bu i'r adran ymgynghori â'r Cynghorwyr Lleol ac mae eu barn i'w gweld yn yr adroddiad.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 19 Gorffennaf 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Awst 2022 |

## PWNC

Eitem 7:CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG

## PENDERFYNIAD

Caniatawyd i'r Cyngor ymgymryd â'r rôl 'awdurdod arweiniol' ar gyfer Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG i berwyl cyflwyno'r 'Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol' sy'n ofynnol gan Lywodraeth y DG ar ran chwe sir Gogledd Cymru.

Awdurdodwyd i'r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr – gytuno gyda siroedd eraill y Gogledd ar drefniadau gweinyddu a gweithredu priodol fydd yn gwarchod buddiannau'r Cyngor.

Awdurdodwyd i'r Pennaeth Economi a Chymuned – mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr – gytuno ar gynnwys y 'Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol'.

Awdurdodwyd i'r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr – sefydlu trefniadau priodol ar gyfer cyflawni'r rhaglen yng Ngwynedd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (UK Shared Prosperity Fund / UKSPF) yw un o'r cronfeydd amgen mae Llywodraeth y DG wedi'i sefydlu yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Nodwyd fod y dyraniad ariannol i Wynedd wedi'i gyhoeddi fel rhan o ddyraniad i Ogledd Cymru. Er mwyn sicrhau mynediad i'r cyllid bydd angen cyflwyno 'Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol, cyn 1 Awst 2022 yn amlinellu'r blaenoriaethu ar gyfer defnydd y cyllid a'r bwriad ar gyfer ei weinyddu.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 19 Gorffennaf 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Awst 2022 |

**PWNC**

Eitem 8:AIL WEDD Y RHAGLEN ARFOR

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd ail wedd y Rhaglen fel a’i hamlinellir yn yr adroddiad gan awdurdodi’r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad â’r Arweinydd, Pennaeth Cyllid a’r Prif Weithredwr - gytuno ar gynnwys y rhaglen yn derfynol.

Cytunwyd i’r Cyngor arwain ar ail wedd y Rhaglen ARFOR ar ran Cynghorau Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr o ran rheoli cytundeb ariannol Llywodraeth Cymru, gwireddu’r cynlluniau ar y cyd o fewn y Rhaglen a chydlynu/gweinyddu’r Rhaglen yn ei gyfanrwydd.

Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned - gyda’r Pennaeth Cyllid a’r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol - adolygu a diweddaru’r trefniadau llywodraethu rhwng y pedair sir gan gyflwyno adroddiad pellach petai angen.

Ar sail derbyn cytundeb mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru i ail wedd y Rhaglen, caniatáu symud ymlaen i benodi Rheolwr Rhanbarthol ARFOR.

Awdurdodwyd i’r Pennaeth Economi a Chymuned sefydlu trefniadau priodol ar gyfer cyflawni’r rhaglen yng Ngwynedd.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn dilyn llwyddiant y Rhaglen Arfor, mae £11miliwn wedi ymrwymo gan Lywodraeth Cymru i wedd bellach o’r rhaglen hyd at Fawrth 2025. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru yn dymuno derbyn cynnig gan Gyngor Gwynedd, Ynys Mon, Ceredigion a Sir Gâr ynglŷn â defnydd y gyllideb a rheolaeth y Rhaglen.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 19 Gorffennaf 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Awst 2022 |

## PWNC

Eitem 9:Y GRONFA FFYNIANT BRO

## PENDERFYNIAD

a) Cefnogwyd y bwriad o dargedu Cronfa Ffyniant Bro, Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer cynlluniau Bywiogi Bangor, Llewyrch o’r Llechi, a Coridor Gwyrdd Ardudwy;
b) Awdurdodwyd i’r Pennaeth Cyllid ar y cyd a Phennaeth Economi a Chymuned a Phennaeth Amgylchedd i gytuno ar fanylion y ceisiadau, i arwyddo ceisiadau ac i arwyddo llythyrau cynnig, os yn llwyddiannus, ar gyfer cynlluniau Ffyniant Bro Gwynedd;
c) Awdurdodwyd i’r Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Amgylchedd a’r Pennaeth Cyllid i arwyddo ceisiadau a llythyrau cynnig wrth dargedu pecynnau cyllidol llawn ar gyfer gwireddu y cynlluniau hyn.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ar 23 Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Prydain fanylion am ail rownd Cronfa Ffyniant  Bro, sydd yn un pecyn o gronfeydd sydd wedi eu lansio yn sgil gadael Yr Undeb Ewropeaidd. Eglurwyd fod tri cais sylweddol wedi eu paratoi gan yr Adran Economi a Chymuned ac Yr Adran Amgylchedd, a gofynni’r am hawl y Cabinet i’w cyflwyno i Gronfa Codi’r Gwastad, Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 19 Gorffennaf 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Awst 2022 |

## PWNC

Eitem 10:ACHOS DROS NEWID: DARPARU LLEOLIADAU NYSRIO FEL RHAN O BARTNERIAETH SECTOR GYHOEDDUS

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr achos dros newid a gofyn i’r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyflwyno Achos Busnes Amlinellol Strategol erbyn Hydref 2022 ar greu datblygiad partneriaeth sector gyhoeddus ar safle(oedd) yng Ngwynedd, mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mynegwyd fod y Cyngor eisoes yn ddarparwr gofal preswyl ar gyfer trigolion y sir, ac ar hyn o bryd yn darparu 50% o’r ddarpariaeth gyfan, gyda’r sector annibynnol yn darparu’r gweddill. Nodwyd fod holl ddarpariaeth cartrefi nyrsio y sir yn cael ei ddarparu yn llwyr gan y sector annibynnol. Eglurwyd fod hyn am nad yw wedi bod yn gyfreithiol bosib i Awdurdodau Lleol fynd ati i ddarparu gofal nyrsio.

Nodwyd tan y ddiweddar, fod polisïau Llywodraeth Cymru, ynghyd â disgwyliadau arolygwyr, wedi annog Awudrdodau Lleol i allanoli eu darpariaeth gofal i’r sector annibynnol. Ond mynegwyd fod barn y Llyowdraeth wedi newid yn sylweddol yn ddiweddar. O ganlyniad i hyn nodwyd fod y Cyngor yn awyddus i ddatblygu darpariaethau sydd mor lleol â phosib ac yn galluogi holl ystod o wasanaethau mae unigolion ei angen, ac fod mynd i fod yn ddarpwr gofal nysrio yn rhan hanfodol o’r weledigaeth hon.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 19 Gorffennaf 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Awst 2022 |

## PWNC

Eitem 11:DYFODOL Y GWASANAETH CYNLLUNIO POLISI AR Y CYD (GWYNEDD A MÔN)

## PENDERFYNIAD

Cytunwyd i:

1. Estyniad i'r cytundeb cydweithio cyfredol ar gyfer darpariaeth y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar Cyd hyd at 31 Mawrth 2023;
2. Bod y cytundeb cydweithio ac felly y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dod i ben ar y 31 Mawrth 2023, a bod Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd yn cael ei greu ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd:
3. Bod y Gwasanaeth Polisi Cynllunio newydd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd yn unig:
4. Bod trefniadau ar gyfer cefnogi a gwneud penderfyniadau ar y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd a materion polisi cynllunio perthnasol yn cael eu creu ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd;
5. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Adran Amgylchedd gytuno ar drefniadau cydweithio gydag Ynys Mon i sicrhau fod y Cyngor yn parhau i gwrdd a'r gofynion statudol (ac unrhyw waith cysylltiedig), sydd ei angen ar gyfer monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd;
6. Gan fod hwn yn fater o'r flaenoriaeth uchaf, gofynnir i'r Cabinet ragfarnu'r broses 'bidiau' flynyddol a chaniatáu 'bid' am £70,000 o gyllideb refeniw parhaol rŵan, er mwyn cyfarch y gost ychwanegol o fod yn sefydlu Gwasanaeth Polisi Cynllunio Gwynedd.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Nodwyd fod cytundeb cydweithio sydd mewn lle rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Mon, ar gyfer darparu Gwasanaeth Cynllunio Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dod i ben ar y 31 Gorffennaf 2022, ac o ganlyniad mae angen penderfyniad ynglŷn a darpariaeth y Gwasanaeth i'r dyfodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 19 Gorffennaf 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Awst 2022 |

**PWNC**

Eitem 12:ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS AMGYLCHEDD

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 19 Gorffennaf 2022 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 3 Awst 2022 |

**PWNC**

Eitem 13:ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL A YMGYNGHORIAETH GWYNEDD

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.